# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd R. James mewn perthynas â chais cynllunio S/39984
Y Cynghorydd C.A. Davies mewn perthynas â chais cynllunio W/40091

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 11.30 yb - 12.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. YSTYRIED ADRODDIADAU'R PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CEISIADAU CYNLLUNIO CANLYNOL [YR YMWELODD Y PWYLLGOR A'U SAFLEOEDD YN FLAENOROL] A PHENDERFYNU AR Y CEISIADAU

### 3.1. S/39984 - CAIS ADOLYGOL AR GYFER CADW ANHEDDAU AR LEINIAU 4 A 5 A GYMERADWYWYD O'R BLAEN O DAN GYFEIRNOD S/33081 YN LLAIN 4 & 5, CERDDI GLASFRYN GARDENS, LLANELLI, SA15 3LL

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Chwefror 2020), a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd yn lleol ynghylch yr effaith ar yr amwynderau. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Daeth sylwadau i law gan yr Aelod Lleol a phreswyliwr a oedd yn gwrthwynebu'r cais, gan ailbwysleisio'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio. Y prif feysydd a oedd yn peri pryder oedd colli preifatrwydd oherwydd y ffenestri yn yr atig a'r to.

Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) ac asiant yr ymgeisydd i'r materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr.

**PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio S/39984 yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio.**

## 4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor archwilio'r safle:-**

**E/38576- PRESWYLFA UNLLAWR Â LLE BYW YN Y TO A GAREJ INTEGROL AR DIR YN YMYL RHIF 15 HEOL PLAS GWYN, PEN-Y-GROES, LLANELLI, SA14 7RY**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Aelod Lleol yn gwrthwynebu'r cais ar sail problemau posibl o ran cysylltu'r safle â'r prif wasanaethau, maint yr adeilad a mynediad gwael i'r brif ffordd.

**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i weld y mynediad i'r brif ffordd.

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor archwilio'r safle:-**

**W/40091- PRESWYLFA MENTER WLEDIG AR DIR YN LLWYNONNILL FAWR, HEOL LLANDDAROG, LLANDDAROG, SA32 8AL**

Roedd y cais yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn cais gan yr Aelod Lleol.

Cafwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol a oedd yn cefnogi'r cais yn seiliedig ar asesiad TA6 ynghyd â chais am ymweliad safle.

**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i weld yr adeiladau allanol presennol a chynllun y safle.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]